**POLICE AND CRIME PANEL**

**PANEL HEDDLU A THROSEDD**

## Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 2 Mehefin 2014 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Penodi Is-Gadeirydd**

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

4. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

5. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 7)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

7. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   **a)** Adroddiad diweddaru gan Banel yr Heddlu a Throsedd *(i ddilyn)*

   **b)** Adroddiad blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd *(i ddilyn)*

   **c)** Cynyddu Niferoedd Swyddogion Heddlu (Tudalennau 8 - 11)

Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council

**8. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Cynllun Lwfans (Tudalennau 12 - 15)

**b)** Gweddarlledu Cyfarfodydd (Tudalennau 16 - 18)

**c)** Crynodeb o'r Cwynion a Gafwyd (Tudalennau 19 - 23)

**d)** Rhaglen Waith Craffu *(i ddilyn)*

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun 15 Medi 2014 am 2.00pm. Mae'r lleoliad i'w gadarnhau gan y bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynnal gweithdy i Aelodau'r Panel ar y dyddiad hwn.

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Charles Jones | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Colin Powell | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Bill Tasker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Sedd Wag | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 17 Mawrth 2014, am 2.30 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Gethin Williams (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr: Amanda Bragg, Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, William T Hughes, Charles Jones, Colin Powell ac Ian Roberts |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Tim Rhodes |
| Swyddogion: | Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Anna Humphreys (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Mike Parkin (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru) a Winston Roddick CB QC (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) |

99. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Pat Astbury (Aelod Annibynnol Cyfetholedig), y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd).

100. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol nad yw'n rhagfarnu, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

101. **MATERION BRYS**

Dim.

102. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 20 Ionawr 2014 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2014 fel cofnod cywir.**

103. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Darparodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) y newyddion diweddaraf i'r Panel ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Heddlu a Throsedd fel a ganlyn:

<u>Ystadegau Troseddu</u>

Mae nifer y troseddau â dioddefwyr a gofnodwyd wedi gostwng yn barhaus i Chwefror 2014, bu newid blwyddyn ar flwyddyn o -3.0%.

Amlygodd y CHTh y newidiadau yn y categorïau canlynol:

- Trais heb anaf (+3.4%)
- Trais rhywiol (+6.2%) - roedd riportio'r math hwn o drosedd yn cynyddu.
- Byrgleriaeth Ddomestig (+8.4%) – roedd cynnydd cenedlaethol mewn riportio byrgleriaeth; roedd Gogledd Cymru y 25ain yng Nghymru a Lloegr am nifer y byrgleriaethau fesul 1000 o'r boblogaeth ar 6.8%;
- Roedd byrgleriaeth mewn adeilad ar wahân i anheddau yn 4.9% - roedd y ffigwr hwn yn cael ei ystyried yn uchel, gan fod Gogledd Cymru yn arbennig o wledig ac anghysbell mewn mannau; roedd byrgleriaeth mewn annedd yn 2.4%.
- Roedd lladrad wedi gostwng gan 16.8% - roedd hyn yn adlewyrchu'n well plismona, a Heddlu mwy gweladwy ac effeithiol.
- Roedd dwyn o siopau wedi cynyddu gan 9.9% - roedd cynnydd cenedlaethol yn y math hwn o drosedd ac roedd Gogledd Cymru ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol fesul 1000 o'r boblogaeth. Dywedodd y CHTh bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y Prif Gwnstabl.

Cyflwynodd y CHTh i'r Panel erthygl o'r wasg, a oedd yn dweud bod Gogledd Cymru yn ennill y frwydr yn erbyn troseddu, gyda gostyngiad o 11% mewn troseddu. Roedd Gogledd Cymru wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn troseddau yn y mis a chymeradwyodd y CHTh Heddlu Gogledd Cymru ar y llwyddiant hwn.

Roedd y Panel yn teimlo bod angen ystadegau mwy manwl a gofynnodd i'r CHTh lunio'r ystadegau canlynol, os oedd yr wybodaeth ar gael:

- Cymhariaeth o fyrgleriaethau o garejys/ siediau domestig.
- Ystadegau troseddau wedi ei dadansoddi yn ôl ardal yng Ngogledd Cymru.
- Cynnwys cymaryddion cenedlaethol wrth adrodd ystadegau troseddu, tebyg i'r ystadegau a ddarperir i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- Ystadegau ar gyfer arestiadau ac euogfarnau cysylltiedig.

Mewn ymateb i'r uchod, hysbysodd y Prif Weithredwr ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) y Panel bod yna fframwaith

ddiwygiedig ar gyfer cofnodi canlyniadau troseddu, a ddylai ddarparu gwybodaeth fwy manwl am waith yr Heddlu.

Cyfeiriwyd hefyd at y system Online Watch Link (OWL) a'r posibilrwydd o wella'r system negeseuon testun, drwy anfon negeseuon testun pan fyddai'r troseddwr yn cael ei ddal. Cytunodd y CHTh i ymchwilio i'r mater hwn ymhellach.

Y Prif Gwnstabl

Cyhoeddodd y CHTh ei fod wedi ymestyn contract y Prif Gwnstabl am dair blynedd arall hyd at fis Tachwedd 2017. Nid oedd holl delerau ei gontract wedi cael eu setlo, o ganlyniad i drafodaethau cenedlaethol parhaus.

Gweithio gyda'r Trydydd Sector

Roedd y CHTh yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda'r Trydydd Sector a sefydlu ymgysylltu a chyfathrebu da er mwyn sicrhau bod y Trydydd Sector nid yn unig yn cymryd rhan mewn gweithio ar y cyd, ond hefyd yn gallu dylanwadu ar gynllunio a datblygu, wrth fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol lleol.

Cynhadledd Dioddefwyr

Roedd y CHTh wedi cynnal cynhadledd ar 3 Mawrth 2014 ar weithio mewn partneriaeth i gefnogi taith y dioddefwr drwy'r system cyfiawnder troseddol. Yn y gynhadledd hefyd, rhoddwyd diweddariad ar weithredu’r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.

Mewn ymateb i ymholiad yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau dioddefwr oddi wrth y Trydydd Sector, dwedwyd wrth y Panel bod y SCHTh ar hyn o bryd yn y camau datblygedig o sefydlu proses gomisiynu gweladwy a thryloyw. Byddai'r CHTh yn rhoi adborth pellach ar y broses hon i gyfarfod yn y dyfodol.

Peilot Cyllidebu Cyfranogol

Dywedodd y CHTh wrth y Panel fod cyfanswm o 73 o brosiectau wedi cael eu cyflwyno a gafodd eu torri i lawr ar restr fer i bump fesul ardal sirol, yn dilyn trafodaeth banel a oedd yn cynnwys yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol a chynrychiolwyr o'r gymuned. Yna roedd y cyhoedd yn pleidleisio ar y rhai ar y rhestr fer, gyda chyfanswm o 3,234 o bleidleisiau wedi’u bwrw. Cafodd y prosiectau llwyddiannus yn ôl ardal sirol eu rhestru yn adroddiad diweddaru y CHTh.

Cafodd y Panel hefyd ddiweddariad mewn perthynas â gweithgareddau'r Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, y Cydbwyllgor Archwilio, y Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Gronfa Deddf Eiddo'r Heddlu.

Hefyd, hysbysodd y CHTh y Panel am ei weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, a oedd yn cynnwys:

- Presennol mewn 7 cyfarfod allanol ym mis Ionawr 2014.
- Presennol mewn 16 cyfarfod allanol ym mis Chwefror 2014, gan gynnwys ymweliad â Choleg y Rhyl.
- Presennol mewn 10 cyfarfod allanol ym mis Mawrth 2014; 4 cyfweliad â’r cyfryngau; a nifer o ymweliadau ag ysgolion a sefydliadau addysgol.
- Cwblhau'r gwaith o ddrafftio Cynllun yr Heddlu a Throsedd diwygiedig.
- Ymweld â’r Prosiect Warws yn Wrecsam, sy'n cynorthwyo pobl ifanc mewn gofal maeth i ennill sgiliau yn y diwydiant adeiladu.

Estynnodd y Cynghorydd Wil Hughes ei ddiolch i'r CHTh am yr holl waith caled a wnaed gan y CHTh a'r Heddlu yn Ynys Môn.

Hefyd atgoffodd y CHTh y Panel y byddai'n mynychu ysgolion a chymunedau yng Ngogledd Cymru yn ôl y gofyn.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu'r Panel gydag ystadegau pellach fel yr amlygwyd uchod.**

**(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhoi adborth pellach ar y broses gomisiynu i gyfarfod o Banel yr Heddlu a Throsedd yn y dyfodol.**

**(c) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymchwilio a ellid gwellau’r Gwasanaeth OWL fel y gellid anfon neges destun pan fo’r troseddwr yn cael ei ddal.**

104. **CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHTh) fersiwn ddiwygiedig ac wedi’i diweddaru o Gynllun yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru i’r Panel.

Roedd y CHTh wedi newid yr amcanion heddlu a throsedd yn y cynllun cyntaf am bedair amcan newydd, sef:

- Atal Troseddau
- Darparu ymateb priodol
- Lleihau'r niwed a'r risg o niwed
- Magu perthnasau effeithiol

Bwriad yr amcanion oedd i fod yn glir ac i roi ffocws i Heddlu Gogledd Cymru, ei staff a’i bartneriaid a rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy’n ymwneud â diogelwch cymunedol. Byddai'r amcanion hefyd yn cael eu hategu gan fesurau, a fyddai'n galluogi i'r CHTh i fesur perfformiad yr Heddlu.

Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, a oedd yn cynnwys mynychu Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol, roedd y Cynllun wedi ei ddiwygio hefyd i gynnwys y canlynol:

- Penderfynu ar raddfa masnachu pobl
- Darparu ymateb priodol
- Cynnwys rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cydraddoldeb

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol yn y dyfodol pe byddai'r CHTh yn cynhyrchu dogfen gyda 'newidiadau olrhain' neu atodiad, a fyddai'n amlygu lle mae'r newidiadau wedi digwydd i'r Cynllun.

Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o'r CHTh yn darparu cyllid i Gynghorau Tref a Chymuned i gynorthwyo gyda darparu cyfleusterau TCC. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y cyfraniad a wneir gan Heddlu Gogledd Cymru i Awdurdodau Lleol i helpu gyda'r costau am ddarparu'r gwasanaeth hwn; y gobaith oedd y byddai'r cyfraniad hwn yn parhau yn dilyn newidiadau i'r system gyllido fformiwla.

Cydnabu'r CHTh bwysigrwydd sylweddol y cyfleusterau hyn o ran darparu diogelwch cymunedol; fodd bynnag, oherwydd yr heriau ariannol sylweddol o'n blaenau, roedd gan yr holl bartneriaid gan gynnwys Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb am y gwasanaeth hanfodol hwn a byddai angen datblygu strategaeth. Byddai'r CHTh yn darparu'r Panel gyda manylion pellach mewn perthynas â newidiadau yn y system ariannu yn y dyfodol.

Awgrymodd y Prif Weithredwr i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) y gellid cyflwyno ceisiadau i'r Peilot Cyllidebu Cyfranogol, ond byddai hyn daliad un tro.

Byddai'r CHTh yn dal yr Heddlu i gyfrif drwy fonitro lefelau: cyfanswm troseddau a gofnodwyd; troseddau â dioddefwyr; troseddau wedi'u datrys yn ôl math o drosedd; ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr i'r SCHTh unwaith byddai'r Cynllun wedi'i gytuno, byddai adroddiadau monitro yn cael eu darparu i'r Panel mewn cyfarfodydd yn y dyfodol

Roedd y Panel yn cefnogi'r diwygiadau i'r Cynllun a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r CHTh yn unol â'r ddeddfwriaeth ofynnol.

**PENDERFYNWYD-**

(a) **Bod Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig Gogledd Cymru yn cael ei gefnogi ar gyfer ei fabwysiadu.**

(b) **Bod manylion pellach ar y newidiadau i'r system cyllid fformiwla yn cael ei ddarparu i'r Panel Heddlu a Throsedd mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

(c) **Bod adroddiadau monitro yn cael ei ddarparu i'r Panel Heddlu a Throsedd yn rheolaidd, ar berfformiad yr amcanion o fewn Cynllun yr Heddlu a Throsedd.**

105. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2013/14**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid i Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) ddiweddariad i'r Panel ar y gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru fel y safodd ar 31 Ionawr 2014.

Cyfanswm rhagamcan tuag at ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £1.753m (o'i gymharu â £1.755m ar ddiwedd mis Tachwedd 2013).

O ran y rhaglen gyfalaf, roedd y gwariant ychydig yn llai na £6m, o'i gymharu â chyllideb 2013/14 o £9m. Gan fod gwariant cyfalaf fel arfer yn cynyddu ar ddiwedd y flwyddyn, roedd hyn yn sefyllfa dda, gyda'r mwyafrif o'r prosiectau yn mynd rhagddynt neu wedi'u cwblhau.

Dywedwyd wrth y Panel bod tanwariant o fewn Ystadau mewn perthynas ag adleoli y Fflint; roedd y prosiect hwn ar y gweill, ond byddai'n pontio diwedd y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, byddai angen trosglwyddo cyllideb o £0.563m ar gyfer Cerbydau Uned Cefnogi'r Heddlu (PSU's) ymlaen i flwyddyn 2014-15, gan fod amnewidiadau posibl ar gyfer y PSU wedi cael eu hasesu ac nid oeddent yn diwallu'r safonau hanfodol; felly roedd y PSU cyfredol wedi'u hadnewyddu.

Cyfeiriwyd at recriwtio 51 o Swyddogion Heddlu rheng flaen ychwanegol, yr oedd y CHTh wedi datgan a fyddai'n cael eu recriwtio yn dilyn cymeradwyaeth y Panel o gynnydd yn y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14.

Roedd y Panel yn pryderu nad oedd y sefydliad wedi cynyddu mewn gwirionedd gyda 51 Swyddog yr Heddlu ychwanegol a chyfeiriwyd at ddatganiadau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol, a gafodd eu cofnodi yn y cofnodion. Mewn ymateb, dywedodd y CHTh bod y cynnydd yn y praesept wedi darparu'r Heddlu gyda 51 mwy o Swyddogion yr Heddlu na fyddent fel arall wedi'i gael, oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (Heddlu Gogledd Cymru) y Panel hefyd o ganlyniad i nifer o secondiadau, a oedd bellach yn gorffen (Swyddogion Amddiffyn Brenhinol), fod angen i'r swyddi hyn, a oedd wedi cael ei ariannu yn uniongyrchol yn flaenorol gan y Swyddfa Gartref, ddod yn ôl i mewn i'r sefydliad.

Gofynnwyd i'r CHTh ddarparu'r Panel ag adroddiad yn y cyfarfod nesaf, er mwyn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â recriwtio'r 51 o Swyddogion yr Heddlu ychwanegol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**(b) Gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddarparu'r Panel ag adroddiad yn y cyfarfod nesaf, er mwyn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â recriwtio'r 51 o Swyddogion yr Heddlu ychwanegol.**

106. **RHAGLEN CYFARFODYDD BWRIEDIG 2013/14**

Cyflwynwyd amserlen arfaethedig i'r Panel o gyfarfodydd ar gyfer 2014/15.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod y SCHTh yn bwriadu ad-drefnu gweithdy ar gyfer Aelodau'r Panel ar 2 Mehefin 2014, i gyd-fynd gyda chyfarfod nesaf y Panel.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod y rhestr arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer 2014/15 yn cael ei gytuno.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm)

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

EITEM RHAGLEN 7c

Holl Aelodau Panel yr Heddlu a Throsedd

Mai / May 2014

Annwyl Aelod o'r Panel

Dear Panel Member

**Par: Cynyddu Niferoedd Swyddogion Heddlu**

Ysgrifennaf mewn perthynas â'ch llythyr dyddiedig 7 Ebrill 2014 ble gwnaethoch gyfeirio at bryder rhai o Aelodau'r Panel "nad oedd mewn gwirionedd 51 yn fwy o Swyddogion Heddlu".

Wrth ymateb, hoffwn dynnu eich sylw at dri phrif bwynt. Yn gyntaf, mi wnaeth niferoedd swyddogion heddlu yn Heddlu Gogledd Cymru gynyddu 51. Yn ail, adnabuwyd y 51 swydd ac mae swyddogion wedi'u penodi iddynt. Yn olaf, am resymau fydd yn dod yn amlwg ac yr wyf wedi'u nodi isod, mae niferoedd swyddogion heddlu wedi amrywio ers hynny ond mae 51 swydd yn dal i fodoli.

Mewn perthynas â'r pwynt cyntaf yr wyf wedi cyfeirio ato uchod, hoffwn nodi'n fanwl beth oedd yr ymrwymiad. Yng nghyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2013, cofnodwyd yn y cofnodion: "Byddai'r cynnydd bwriedig hwn yn galluogi 51 o Swyddogion Heddlu ychwanegol i gael eu hariannu a chynyddu'r Sefydliad Swyddog o 1417 i 1468, a fyddai'n galluogi mwy o ddewisiadau i ganolbwyntio ar leihau troseddau drwy gamau ataliol a lleihau niwed i gymunedau" (para 7, eitem 27). Mae'n ddefnyddiol cadw hyn mewn cof wrth ystyried y mater ac yn benodol, y pwynt mai'r safon mesur mewn perthynas â'r ymrwymiad hwn oedd niferoedd swyddogion heddlu. Mae rhai unigolion yn cyfeirio at niferoedd fel 'cryfder cynlluniedig' - mae'r termau'n gyfystyr. Mae'n bwysig nodi ar y pwynt hwn nad yw'n

**Re: Increase in Police Officer Establishment**

I write with regard to your letter of 7th April 2014 in which you refer to the concern expressed by some Panel Members that the "establishment had not actually increased by an additional 51 Police Officers".

In responding, there are three principal points to which I would draw your attention. Firstly, the police officer establishment of the North Wales Police Force did increase by 51. Secondly, the 51 posts were identified and appointments have been made to them. Finally, for reasons which will become evident and which I have set out below, the police officer establishment of the Force has fluctuated since but the component of the 51 is still present.

With regard to the first point I have referred to above, let me set out in detail what the undertaking was. At the meeting of the North Wales Police and Crime Panel held on 21st January 2013, the minutes record that the increase in numbers was described thus: "this proposed increase would enable an additional 51 Police Officers to be funded and increase the Officer establishment from 1417 to 1468 which would enable greater options to focus on reducing crime through preventative measures and reducing harm to communities", (para 7, item 27). It is helpful to bear this in mind when considering the matter and in particular the point that the standard of measurement applicable to the undertaking was the police officer establishment. Some people refer to establishment as 'planned strength' – the terms are synonymous. It is important to note at this point that it


Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

golygu'r un peth a 'gwir gryfder'. Nid yw trafod gwir gryfder yn berthnasol i'r mater hwn oherwydd trwy gydol blwyddyn ariannol 2013/14, roedd gwir gryfder swyddogion heddlu dros y cryfder cynlluniedig yn ddieithriad. Yr ymrwymiad a wnaed ar 1 Ebrill 2013 oedd cynyddu niferoedd swyddogion heddlu i 1468, 51 yn uwch na'r ffigwr ar y pryd o 1417. Mi wnaeth hyn hefyd ganiatáu i'r Heddlu barhau i recriwtio'n gynnar.

Mewn perthynas â'r ail bwynt yr wyf wedi cyfeirio ato yn fy nghyflwyniad h.y. bod y 51 swydd wedi'u hadnabod a bod swyddogion wedi'u penodi iddynt, crëwyd y swyddi canlynol yn yr Heddlu:

- Ardal Ddwyreiniol - 23 swyddog (9 Gogledd Sir y Fflint, 2 De Sir y Fflint, 2 Wrecsam Wledig, 9 Tref Wrecsam, 1 Tîm Troseddwyr Ifanc).
- Ardal Ganolog - 6 swyddog (2 swyddog yn ardal Gorllewin Conwy Arfordirol, 2 yn ardal Conwy a Dinbych Wledig, 2 yn ardal Dinbych Arfordirol ac Abergele).
- Ardal Orllewinol - 8 swyddog (2 Ynys Môn, 2 Gogledd Gwynedd, 4 De Gwynedd).
- Tîm Amethyst - 6 Ditectif Gwnstabl.
- Swyddogion Cyswllt Troseddau Cefn Gwlad - 3 swyddog.
- Swyddogion Camdriniaeth Ddomestig mewn Lifrai a Dillad Arferol – 3 swyddog.
- Gwaith rhagweithiol sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth er mwyn atal a datrys trosedd - 2 swyddog mewn lifrai.

Penodwyd swyddogion i'r swyddi hyn - rhai yn sgil recriwtio, ac eraill o'r 'balans gwir gryfder'. Mae'n dilyn o hyd nad ydyw'n berthnasol mesur yr ymrwymiad drwy edrych ar y nifer a gafodd eu recriwtio yn unig.

does not mean the same as 'actual strength'. Discussion of actual strength is not relevant to this matter because throughout the whole of the 2013/14 financial year, the police officer actual strength exceeded the police officer establishment without exception. The police officer establishment set in accordance with the undertaking on 1st April 2013 was 1468, this being 51 above the intended establishment figure of 1417. This also enabled the Force to continue with early recruitment.

With regard to the second point I have referred to in my introduction ie that the 51 posts were identified and appointments have been made to them, new posts were created in the Force establishment as follows:

- Eastern area - 23 officers (9 North Flintshire, 2 South Flintshire, 2 Wrexham rural, 9 Wrexham Town, 1 Youth Offending Team).
- Central area - 6 officers (2 officers West Conwy Coastal District, 2 Conwy and Denbigh rural District, 2 Denbighshire Coastal and Abergele District).
- Western area - 8 officers (2 Anglesey, 2 Gwynedd North, 4 Gwynedd South).
- Amethyst Team - 6 Detective Constables.
- Rural Crime Liaison Officers - 3 officers.
- Uniform and plain clothes domestic abuse - 3 officers.
- Intelligence-led proactive work to prevent and detect crime - 2 uniform officers.

Appointments were made to these posts, some of which were from recruitment, others being from the 'actual strength balance'. It follows from this that it is not relevant to attempt to measure the undertaking by looking solely at recruitment numbers.


Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

Mewn perthynas â'r trydydd pwynt, a'r olaf h.y. bod niferoedd swyddogion heddlu wedi amrywio ers 1 Ebrill 2013, mae'n bwysig nodi bod y 51 swydd wedi'u cadw drwy gydol blwyddyn ariannol 2013/14 ac i mewn i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig nodi bod ffactorau eraill wedi effeithiol ar niferoedd swyddogion heddlu yn ystod blwyddyn ariannol 13/14. Mae amrywiadau yn anochel. Er enghraifft, tynnwyd swyddogion heddlu o'r niferoedd ym 2013 pan ddaeth y gofyniad i Amddiffyn y Frenhiniaeth a'r nawdd cysylltiedig i ben. Dyma oedd yr amrywiadau ar gyfer y flwyddyn gyfan:

| Mis | Niferoedd Swyddogion Heddlu (ClIA) | Gwir Gryfder Swyddogion Heddlu |
|---|---|---|
| Ebrill 2013 | 1468 | +19 |
| Mai | 1468 | +6 |
| Mehefin | 1468 | +18 |
| Gorffennaf | 1468 | +13 |
| Awst | 1468 | +6 |
| Medi | 1470 | +43 |
| Hydref | 1450 | +28 |
| Tachwedd | 1452 | +19 |
| Rhagfyr | 1453 | +11 |
| Ionawr 2014 | 1452 | +21 |
| Chwefror | 1454 | +18 |
| Mawrth | 1454 | +33 |

Er gwaetha'r amrywiadau, drwy gydol y cyfnod o 12 mis, roedd niferoedd swyddogion heddlu 51 yn fwy na fyddai wedi bod fel arall pe na bai'r ymrwymiad wedi'i roi mewn lle. Heb y cynnydd o 51, byddai niferoedd swyddogion heddlu wedi bod fel a ganlyn:

On the third and final point ie that the police officer establishment of the Force has fluctuated since 1st April 2013, it is important to note that the component of the 51 posts has been retained throughout the 2013/14 financial year and into the current financial year. However, it is equally important to note that other factors have affected the police officer establishment during the 13/14 year. Fluctuations are unavoidable. For example, some police officer numbers were deducted from the establishment in 2013 as the Royal Protection requirement and associated funding ceased. The fluctuations for the whole year were as follows:

| Month | Police Officer establishment (FTE) | Police Officer actual strength |
|---|---|---|
| April 2013 | 1468 | +19 |
| May | 1468 | +6 |
| June | 1468 | +18 |
| July | 1468 | +13 |
| August | 1468 | +6 |
| September | 1470 | +43 |
| October | 1450 | +28 |
| November | 1452 | +19 |
| December | 1453 | +11 |
| January 2014 | 1452 | +21 |
| February | 1454 | +18 |
| March | 1454 | +33 |

Despite the fluctuations, throughout the whole 12 month period, the police officer establishment was 51 officers more than it would have otherwise been had the undertaking not been put in place. Without the increase of 51, the police officer establishment would have been as follows:


Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

| Mis | Beth fyddai niferoedd Swyddogion Heddlu (CLlA) wedi bod heb y 51 ychwanegol |
|---|---|
| Ebrill 2013 | 1417 |
| Mai | 1417 |
| Mehefin | 1417 |
| Gorffennaf | 1417 |
| Awst | 1417 |
| Medi | 1419 |
| Hydref | 1399 |
| Tachwedd | 1401 |
| Rhagfyr | 1402 |
| Ionawr 2014 | 1401 |
| Chwefror | 1403 |
| Mawrth | 1403 |

| Month | What the Police Officer establishment (FTE) would have been without the 51 component |
|---|---|
| April 2013 | 1417 |
| May | 1417 |
| June | 1417 |
| July | 1417 |
| August | 1417 |
| September | 1419 |
| October | 1399 |
| November | 1401 |
| December | 1402 |
| January 2014 | 1401 |
| February | 1403 |
| March | 1403 |

Gobeithiaf fod hyn wedi egluro'r mater. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â fy swyddfa er mwyn cael eglurhad pellach.

I hope this has brought clarity to the matter. If you do have further questions, please do not hesitate to contact my office so that further explanation can be arranged.

Yn gywir / Yours sincerely

Winston Roddick

Winston Roddick
Comisiynydd Heddlu a Throsedd /
Police and Crime Commissioner


Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 2 Mehefin 2014 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Cynllun Lwfans |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Ystyried a ddylai'r Cynllun Lwfansau ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHT) wneud darpariaeth ar gyfer:

- Amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfod
- Amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod

1.2 Cyhoeddi treuliau a dalwyd i Aelodau'r PHT ar gyfer 2013/14.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Ystyriodd y PHT adroddiad yn ymwneud â'r Cynllun Lwfansau yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2013; ond, cytunodd yr Aelodau i ohirio'r mater hyd nes ceir gwybodaeth bellach gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

2.1 Mae'r IRPW bellach wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol yn dilyn ymarfer ymgynghori ac er nad oes gan yr IRPW unrhyw awdurdodaeth dros y PHT, mae Cynllun Lwfans y PHT yn seiliedig ar y taliadau i aelodau cyfetholedig.

2.2 Mae'r penderfyniadau diwygiedig gan yr IRPW mewn perthynas â thalu Aelodau cyfetholedig fel a ganlyn:

- *Mae amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod yn gymwys i gael ei gynnwys mewn hawliadau a wnaed gan Aelodau cyfetholedig, a gall y swyddog priodol benderfynu ar y rhain cyn y cyfarfod.*

- *Gellir cynnwys amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod yn y ceisiadau am daliad a wneir gan Aelodau cyfetholedig (hyd at yr uchafswm cyfradd ddyddiol).*

2.3 Mae Cylch Gorchwyl y PHT yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi treuliau Aelodau yn flynyddol a'u gwneud ar gael drwy wefan yr Awdurdod Cynnal, PHT a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae Atodiad 1 yn dangos y treuliau a dalwyd i aelodau'r PHT ar gyfer 2013/14.

**3. ARGYMHELLION/DEWISIADAU**

3.1 Dylai Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ystyried a ddylai'r Cynllun Lwfans gael ei ddiwygio yn unol â phenderfyniadau diwygiedig gan yr IRPW.

3.2 Bod treuliau a dalwyd i Aelodau'r PHT ar gyfer 2013/14 yn cael eu cyhoeddi yn unol â Chylch Gorchwyl y PHT.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Cymeradwyodd y PHT Gynllun Lwfans ar 4 Mehefin 2013, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Gwneir taliadau drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy'n gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

4.2 Er nad oes gan yr IRPW unrhyw awdurdodaeth dros PHT, mae cyfraddau cyflog yn seiliedig ar daliadau i aelodau cyfetholedig.

4.3 Mae'r penderfyniadau diwygiedig yn Adroddiad Blynyddol yr IRPW yn cynnwys tâl am amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod, sydd yn gymwys i gael ei gynnwys mewn hawliau gan Aelodau cyfetholedig. Penderfynodd y IRPW hefyd y gellir cynnwys amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod yn y ceisiadau am daliadau.

4.4 Mae angen eglurhad mewn perthynas â Grant y Swyddfa Gartref, sy'n wedi'i rannu ar hyn o bryd rhwng Costau Gweinyddol, Costau Cyfieithu a Threuliau Aelodau. Mae gwybodaeth a gafwyd yn Hydref 2013 yn nodi mai dim ond £920 yr aelod y gall y Swyddfa Gartref ei ddarparu a gall yr Awdurdod drosglwyddo hyn rhwng gwahanol aelodau, ond nid rhwng mathau gwahanol o gost. Ond, mae dogfen y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (CfPS) 'Panelau Heddlu a Throsedd: y flwyddyn gyntaf' a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014 yn nodi nad yw arian y Swyddfa Gartref wedi'i neilltuo ac mai mater i'r awdurdod arweiniol yw penderfynu sut i ariannu'r Panel.

4.5 Rhoddodd y Swyddogion sylwadau i CLILC yn y Cyfarfod Arweinwyr PHT diwethaf yn gofyn a ellir llacio'r elfen wedi'i neilltuo o'r grant i ganiatáu mwy o hyblygrwydd. Hefyd, rhoddwyd sylwadau i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref, bod y PHT yn teimlo y dylid cyfuno'r grant yn hytrach na'i ddynodi, ac y dylai fod yn gyfrifoldeb ar y PHT unigol i benderfynu sut y dylid gwario'r grant.

4.6 Mae angen i'r PHT fod yn ymwybodol, os ydynt yn cytuno i gynnwys amser paratoi ac amser teithio o fewn y cynllun lwfansau, na all Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dalu unrhyw gostau aelod sy'n ychwanegol i grant y Swyddfa Gartref.

4.7 Mae'n rhaid i'r PHT gyhoeddi manylion y treuliau a dalwyd i Aelodau yn flynyddol a bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru at ddibenion eglurder ac i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Ymgynghorwyd gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y PHT.

**6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i'r Awdurdod Lleol sy'n cynnal Panel Heddlu a Throsedd, a gallant dderbyn hyd at £920 yn flynyddol fesul aelod ar gyfer treuliau.

**7. RISG**

7.1 Trwy fabwysiadu penderfyniadau diwygiedig y IRPW, mae'r Aelodau mewn perygl o basio'r uchafswm sy'n daladwy mewn unrhyw un flwyddyn (£920) ac felly ni fyddant yn gallu hawlio ar gyfer presenoldeb pellach mewn cyfarfodydd.

7.2 Ni ellir rhoi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perygl o wynebu costau aelodau sy'n ychwanegol at grant y Swyddfa Gartref.

**8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLION**

8.1 Ceisio barn y Panel ynglŷn ag a ddylid diwygio'r Cynllun Lwfans i gynnwys y penderfyniadau o Adroddiad Blynyddol yr IRPW.

Atodiad 1

**Lwfansau Aelodau yn ddyledus 2013/14**

| **Aelodau** | **Lwfans (gan gynnwys YG)** | **Treuliau** |
|---|---|---|
| Pat Astbury | £1,109.84 | £561.44 |
| Cyng. Amanda Bragg | £990.00 | £363.29 |
| Cyng. Bill Cowie | £99.00 | £18.00 |
| Cyng. Glenys Diskin | £792.00 | £138.16 |
| Cyng. Philip C. Evans | £675.96 | £147.24 |
| Cyng. Julie Fallon | £527.86 | £41.59 |
| Cyng. Chris Hughes | £139.99 | £0.00 |
| Cyng. William Hughes | £594.00 | £174.05 |
| Cyng. William Knightly | £379.53 | £227.37 |
| Cyng. Charles Jones | £594.00 | £129.93 |
| Cyng. Colin Powell | £990.00 | £696.23 |
| Cyng. Ian Roberts | £297.00 | £212.61 |
| Tim Rhodes | £693.00 | £46.03 |
| Cyng. Bill Tasker | £297.00 | £3.30 |
| Cyng. Gethin Williams | £594.00 | £249.54 |
| Cyfanswm | £8,773.18 | £3,008.78 |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 2 Mehefin 2014 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Gweddarlledu Cyfarfodydd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofynnir i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHT) ystyried a ddylid gweddarlledu cyfarfodydd y PHT.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi caffael system gweddarlledu gan ddefnyddio arian grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae camerâu, meddalwedd a chonsol gweithredu wedi'u gosod yn Siambr y Cyngor ym Modlondeb, Conwy.

2.2 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweddarlledu cyfarfodydd PHT wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

## 3. ARGYMHELLIAD/DEWIS

3.1 Dylai Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ystyried a ddylid gweddarlledu cyfarfodydd y PHT yn y dyfodol.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar hyn o bryd mae PHT Sussex, PHT Thames Valley a PHT Swydd Stafford yn gweddarlledu eu cyfarfodydd, a gellir eu gweld ar eu gwefannau. Ond, mae'r ddogfen CfPS 'Paneli Heddlu a Throsedd: y flwyddyn gyntaf' yn nodi nad yw'r rhan fwyaf o gyfarfodydd PHT yn cael eu gweddarlledu. O gofio bod llawer o Baneli yn cwmpasu ardaloedd daearyddol eang, efallai y bydd rhagdybiaeth uwch o blaid gweddarlledu'r cyfarfodydd hyn na chyfarfodydd safonol y cyngor.

4.2 Dylai Paneli PHT fod yn weladwy i'r unigolion yn y gymuned leol a thrwy weddarlledu cyfarfodydd, byddai'r PHT yn codi ei broffil ac yn gallu dangos i'r cyhoedd bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn effeithiol rhwng etholiadau.

4.3 Byddai gweddarlledu yn caniatáu i'n cyfarfodydd fod ar gael i'w gweld dros y rhyngrwyd drwy gyfrwng cyfryngau ffrydio. Byddai'r wefan yn galluogi'r cyhoedd i weld y cyfarfodydd yn fyw neu'n ddiweddarach ar y wefan drwy archif. Y cyfan y mae'r gynulleidfa ei angen yw dyfais sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd a gallant wylio'r digwyddiad.

4.4 Yn nodweddiadol, mae Cynghorau sy'n defnyddio gweddarlledu yn rhoi gwybod bod nifer y bobl sy'n gwylio yn fyw yn uwch na nifer y bobl sy'n dod i'r cyfarfodydd, a bod nifer sylweddol uwch o bobl yn gwylio deunydd archif yn hytrach na'r rhai sy'n gwylio yn fyw.

4.5 Ystyrir gweddarlledu cyfarfodydd, yn enwedig rhai yn ymwneud â'r gyllideb, y praesept a'r cynllun heddlu a throsedd, fel modd o wella eglurder a mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd PHT, sy'n cefnogi.

5.2 Ymgynghorwyd â'r CHT a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sy'n cefnogi/ddim yn cefnogi gweddarlledu cyfarfodydd.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Byddai cost unigol o £600 i'r darparwr gweddarlledu i greu'r dudalen PHT lle gellir gweld y gweddarllediadau. Hefyd byddai tâl o £100 yr awr ar gyfer y ffilm gweddarlledu i dalu am y ffi fesul awr a godir gan y darparwr gweddarlledu, defnyddio adnoddau gweddarlledu'r Cyngor ac adnoddau staff.

6.2 Bydd yr holl gostau yn ymwneud ag oriau darlledu a chymorth Swyddogion angenrheidiol i weddarlledu cyfarfodydd yn cael eu talu gan grant y Swyddfa Gartref.

## 7. RISGIAU

7.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi archwilio'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweddarlledu yn ei gyfanrwydd, sy’n cynnwys:

- Ariannu'r fenter yn y dyfodol pan ddaw cynllun peilot 2 flynedd CBSC i ben.
- Defnydd amhriodol o ffilm gweddarlledu a thrafodaethau'n cael eu cymryd allan o'u cyd-destun.
- Gweddarlledu’n gweithredu fel rhwystr i siaradwyr cyhoeddus.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Rhoi cyfle i’r PHT benderfynu a ddylid gweddarlledu cyfarfodydd; byddai hyn yn cael ei weld fel ffordd o gynyddu proffil ac amlygrwydd y Panel a gwella eglurder a mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 2 Mehefin 2014 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Crynodeb o'r Cwynion a Gafwyd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Banel yr Heddlu a Throsedd (PHT) Gogledd Cymru ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion a gafwyd hyd yn hyn.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldeb statudol wrth ymdrin â chwynion penodol a wneir yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHT) Gogledd Cymru a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (DCHT), a gwneud penderfyniadau ynglŷn â nhw. Penderfynodd y Panel i ddirprwyo'i swyddogaethau i Gyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awdurdod Cynnal Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru). Mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a chydag un Aelod Annibynnol (os yw ar gael) i bennu'r mathau o gwynion a dderbynnir, a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol a dull terfynol y Panel o ddatrys cwynion.

2.2 Mae'r PHT wedi cael 5 cwyn hyd yma, a rhoddwyd gwybod am 3 o'r rhain eisoes i'r Panel ac maent rŵan wedi'u cau. Mae'r camau a gymerwyd i ddatrys y 2 gwyn arall wedi'u rhestru ym Mharagraff 4 - Gwybodaeth Gefndir.

2.3 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHT) yn gyfrifol am ddelio â chwynion am y Prif Gwnstabl. Caiff cwynion eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Bydd ystadegau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac yn chwarterol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – mae'r ystadegau yn darparu manylion am gyfanswm y cwynion a gafwyd gan bob llu heddlu.

## 3. ARGYMHELLIAD/DEWIS

3.1 Bod y Panel yn nodi'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae PHT wedi cael 5 cwyn hyd yma, a rhoddwyd gwybod am 3 o'r rhain eisoes i'r Panel ar 11 Tachwedd 2013, ac maent rŵan wedi'u cau.

Isod mae'r camau a gymerwyd i ddatrys y ddwy gwyn sy'n weddill:

### 4.2 Cwyn 4 - Bod CHT wedi ymyrryd â materion gweithredol yr heddlu:

4.2.1 Ymgynghorodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) gyda thri Aelod PHT ac ar ôl ystyriaeth briodol ysgrifennodd at CHT yn gofyn am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r honiad hwn.

4.2.2 Dywedodd CHT ei fod yn arfer bob amser ganddo basio materion o'r fath ymlaen i Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu a rhoi gwybod i'r unigolyn am yr arfer hwn.

4.2.3 Cadarnhaodd yr Adran Safonau Proffesiynol eu bod wedi ymdrin â'r gwyn.

4.2.4 Yn dilyn ymgynghoriad pellach gyda thri aelod PHT, cytunwyd oherwydd mai cyfrwng yn unig yw CHT mewn materion o'r fath, na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd gan PHT a bod y mater rŵan wedi'i gau.

### 4.3 Cwyn 5 – Nad yw'r Heddlu wedi cofnodi cwynion:

4.3.1 Cysylltodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) â'r SCHT, a oedd yn gallu darparu tystiolaeth bod y gwyn wedi'i chodi a'i chofnodi gyda Heddlu Gogledd Cymru; ond, ar ôl ystyriaeth briodol, teimlodd CHT ei fod yn fater gweithredol a deliwyd ag o yn unol â hynny.

4.3.2 Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol a thri Aelod y PHT nad oedd gan PHT y grym i fynd i'r afael â materion o'r fath gyda Heddlu Gogledd Cymru a'i fod yn fater i Heddlu Gogledd Cymru a'r CHT. Mae'r mater rŵan ar gau ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd gan y PHT.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac Aelod Cyfetholedig Annibynnol (yn unol â Gweithdrefn Gwynion PHT), a cytunwyd ar y camau i'w cymryd i'w datrys yn lleol.

## 6. ADNODDAU

6.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r awdurdod arweiniol ar gyfer costau gweinyddu, mae'r gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn ymwneud â materion troseddol yn erbyn CHT yn cymryd swm anghymesur o amser Swyddogion.

## 7. RISG

7.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Gwyno, mae angen rhoi gwybod am grynodeb o bob cwyn (fel y gellir rhoi gwybod yn gyhoeddus) ac arfer ei swyddogaethau at ddibenion monitro.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Rhoi gwybod i'r PHT am nifer y cwynion a gafwyd a'r camau a gymerwyd i'w datrys.

# Complaints Received by the North Wales Police and Crime Panel

| Complaint ID: 1 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 07/03/13 | Commissioner | Conduct Matter |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC was not entitled to stand for election as the North Wales Police and Crime Commissioner because he did not qualify in accordance with appropriate legislation

**Action**

Referred to IPCC

**Resolution**

No further action to be taken by IPCC - Matter closed

| Complaint ID: 2 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 03/03/13 | Commissioner | General |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC had a dismissive attitude to a complaint made about the Chief Constable of the North Wales Police

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

Matter does not fall within the definition of misconduct - Matter closed

| Complaint ID: 3 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 16/07/13 | Commissioner | Conduct Matter |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC failed to notify the ICO that he was processing personal information from the date that he took up office on 22 November 2012.

**Action**

Referred to IPCC

**Resolution**

OPCC now registered with ICO - Matter closed

| Complaint ID: 4 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 12/09/13 | Commissioner | General |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC interfered with police operational matters.

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

The PCP is happy that the PCC is a conduit in such matters and no further action to be undertaken by the PCP - Matter closed

| Complaint ID: 5 | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 15/10/13 | Other | General |

**Details of Complaint**

That the Police failed to record complaints

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

Matter does not fall within the remit of the PCP - Matter closed